

AILFFURFIO GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Strategaeth sector gyfan



LEGAL SERVICES
BOARD

Mawrth 2021

Cynnwys

Y sector a'n rôl ni ynddo.....	3
Ein hymagwedd tuag at y strategaeth	7
Blaenoriaethau ar gyfer y sector yn 2021-24.....	10
Canlyniadau mwy teg	12
Gwella hyder	19
Gwell gwasanaethau... ..	24

Y sector a'n rôl ni ynddo

Y sector gwasanaethau cyfreithiol

Mae'r sector cyfreithiol o bwysigrwydd mawr i'r cyhoedd. Yn aml bydd pobl angen gwasanaethau cyfreithiol yn ystod cyfnodau pwysig neu anodd yn eu bywydau. Gallai hyn gynnwys pryniant mawr, prynu cartref, problemau mewn perthynas, datrys anghydfod, cael anaf, cael eich arestio neu wynebu alltudiaeth.

Mae'r sector gwasanaethau cyfreithiol yn gwneud cyfraniad allweddol i economi'r Deyrnas Unedig. Mae gwariant masnachol ar wasanaethau cyfreithiol yn gwneud cyfraniad pwysig i dwf economaidd, ond mae pob diwydiant, elusennau, llywodraeth leol a chanolog, a mathau eraill o ddefnyddwyr hefyd yn ddibynnol ar wasanaethau cyfreithiol. Mae gwasanaethau cyfreithiol yn ganolog i'n ffordd o fyw, yn diogelu hawliau a rhyddidau dinasyddion, ac yn cefnogi pobl i herio penderfyniadau a wnaed gan gyrff cyhoeddus. Yn allweddol, mae gwasanaethau cyfreithiol yn ganolog i gynnal rheolaeth cyfraith ac i gefnogi gweinyddiaeth effeithiol cyfiawnder.

Mae gan ein system gyfreithiol ddylanwad byd eang. Defnyddir cyfreithiau Lloegr i fod yn sail ar gyfer datrys anghydfodau mewn sawl rhan o'r byd, ac mae'r awdurdodaeth hon yn dal i fod yn ganolfan datrys anghydfodau dewisol. Mae arbenigedd ein gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn rhywbeth a werthfawrogir dramor, gan gyfrannu'n gryf i allforion. Mae awdurdodaethau eraill yn dwyn ysbrydoliaeth gan ein model rheoleiddio – cyfundrefn oddefol sy'n caniatáu amrywiaeth o fodolau busnes a rheoleiddio annibynnol – i ryddfrydoli eu marchnadoedd.


Darperir gwasanaethau cyfreithiol gan nifer eang o weithwyr proffesiynol a busnesau, gyda chyfreithwyr a bargyfreithwyr y rhai a ddefnyddir fwyaf gan ddefnyddwyr. Mae trawsgludwyr trwyddedig, gweithredwyr cyfreithiol siartredig ac Ymarferwyr CILEx, cyfreithwyr costau, notariaid, atwrneiod patent, atwrneiod nodau masnach ac ymarferwyr profiant a reoleiddiwr gan gyrff cyfrifo hefyd yn darparu gwasanaethau cyfreithiol. Mae busnesau cyfreithiol yn amrywio o ran maint a math o gwmnïau cyfreithiol corfforaethol mawr i ymarferwyr ar y stryd fawr, siambrau bargyfreithwyr ac unig fasnachwyr.

Mae cynghorwyr mewnfudo, ymarferydd ansolfedd a chwmnïau rheoli hawliadau hefyd yn darparu gwasanaethau cyfreithiol a reoleiddir, ond mae'r rhain dan gyfundrefnau statudol ar wahân.

Mae'r sector hefyd yn cynnwys busnesau nad ydynt wedi eu rheoleiddio. Maent yn bennaf yn darparu gwasanaethau mewn meysydd fel ysgrifennu ewyllysiau, cyflogaeth a chyfraith teulu. Mae'r busnesau hyn yn amodol i gyfraith defnyddwyr cyffredinol ac efallai y byddant yn perthyn i gymdeithasau masnach sy'n sefydlu rheolau i'w haelodau eu dilyn.

Mae yna amrywiaeth o sefydliadau di-elw yn darparu cyngor ar faterion cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys swyddfeydd cyngor ar bopeth, canolfannau'r gyfraith, clinigau'r gyfraith mewn prifysgolion, cynghorau, undebau llafur, ymysg eraill.

Gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr



Y fframwaith rheoleiddio

Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol (LSB) yw'r rheoleiddiwr goruchwyllo ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn annibynnol o'r proffesiwn cyfreithiol a llywodraeth.

Mae'r LSB yn gweithredu o fewn fframwaith statudol a osodwyd trwy'r Senedd – Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 ('y Ddeddf') – a ddisgrifia ein swyddogaethau ac sy'n rhoi ein pwerau i ni. Mae'r Ddeddf yn sefydlu ein wyth nod¹ rheoleiddiol yr ydym yn eu rhannu gyda'r sefydliadau rydym yn eu goruchwyllo. Cyflawnir gwaith rheoleiddio'r gweithwyr cyfreithiol hyn gan 15 o reoleiddwyr cymeradwy a chyrrff rheoleiddio ac mae'r LSB yn dal y cyrrff hyn yn atebol o ran bodloni eu gofynion dan y Ddeddf.

Rydym ni hefyd yn goruchwyllo'r Swyddfa ar gyfer Cwynion Cyfreithiol (OLC) – bwrdd Ombwdsmon y Gyfraith – ac mae gennym swyddogaethau penodol parthed y Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr.

Mae ein swyddogaethau craidd yn cynnwys goruchwyllo perfformiad y rheoleiddwyr, gosod y ffioedd blynyddol mae ymarferwyr yn eu talu a chymeradwyo'r newidiadau i'w rheolau a chytundebau eraill. Rydym yn sicrhau y cyflawnir rheoleiddio gwasanaethau cyfreithiol yn annibynnol o'r sefydliadau sy'n cynrychioli darparwyr. Rydym ni hefyd yn casglu tystiolaeth ar anghenion cyfreithiol a gweithrediad y farchnad. Yn ein holl waith, rydym yn ystyried beth yw'r ffordd orau i hyrwyddo'r amcanion rheoleiddiol.

Mae'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfreithiol (LSCP) yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr yn y sector. Mae'r Panel wedi ei sefydlu a chynnal gan yr LSB ond mae'n gweithredu'n annibynnol.

¹ Yr wyth nod rheoleiddiol yw: diogelu a hyrwyddo budd y cyhoedd; cefnogi'r egwyddor gyfansoddiadol o reolaeth cyfraith; gwella mynediad at gyfiawnder; diogelu a hyrwyddo lles defnyddwyr; hyrwyddo cystadleuaeth o ran darparu gwasanaethau; annog proffesiwn cyfreithiol annibynnol, cryf, amrywiol ac effeithiol; cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o hawliau a dyletswyddau cyfreithiol y dinesydd; a hyrwyddo a chynnal ymlyniad i'r egwyddorion proffesiynol.

Mae rheolau penodol yn dynodi mai dim ond unigolion neu gwmnïau wedi eu hawdurdodi gan un o'r rheoleiddwyr a orchwylir gennym all gyflawni rhai gweithgareddau cyfreithiol (a elwir yn weithgareddau cyfreithiol 'neilltuedig'). Gallwn wneud argymhellion i'r Arglwydd Ganghellor ei fod yn addasu'r rhestr o weithgareddau.

Y rheolyddion cymeradwy a'r cyrff rheoleiddio

Rheolydd cymeradwy	Corff rheoleiddio	Proffesiwn a reoleiddir
Law Society	Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr	Cyfreithwyr
Cyngor y Bar	Bwrdd Safonau'r Bar	Bargyfreithwyr
Sefydliad Siartredig Gweithredwyr Cyfreithiol	Rheoleiddio CILEx	Gweithredwyr Cyfreithiol Siartredig
Sefydliad Siartredig Twrneiod Nod Masnach	Bwrdd Rheoleiddio Eiddo Deallusol	Atwrneiod Nod Masnach
Sefydliad Siartredig Twrneiod Patent		Atwrneiod Patent
-	Cyngor y Trawsgludwyr Trwyddedig	Trawsgludwyr Trwyddedig
Cymdeithas Cyfreithwyr Costau	Bwrdd Safonau Cyfreithwyr Costau	Cyfreithwyr Costau
-	Meistr y Gallueddau	Notariïaid
Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig	Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr	Cyfrifwyr Siartredig (ar gyfer gweithgareddau profiant)
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr		

Rôl arweinyddiaeth yr LSB o ran darparu'r strategaeth

Fel corff trosolwg, mae gan yr LSB rôl arweinyddiaeth bwysig wrth reoleiddio gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Gallwn gyfrannu trwy:

- **weithredu ysgogiadau a chymhelliant rheoleiddio** sy'n gallu cyflymu newid
- **newidiadau polisi yn darparu'r offer** i ddefnyddwyr ac arloeswyr ddefnyddio
- **defnyddio ein rôl ymgynnull** i ffurfio trafodaeth gyhoeddus a meithrin cydweithredu

Mae ein **swyddogaethau rheoleiddio craidd**, sy'n cynnwys y fframwaith perfformiad rheoleiddio a'n gwaith ar benderfyniadau statudol, ategu cyflawniad y strategaeth a chefnogi cyflawniad ei nodau. Wrth i ni adolygu sut fyddwn yn gweithredu'r swyddogaethau hyn, byddwn yn sicrhau eu bod wedi eu halinio gyda'r strategaeth newydd. Er enghraifft, bwriadwn adolygu ein fframwaith perfformiad rheoleiddio yn 2021-22. Mae'r adolygiadau ar waith o ran sut ydym yn asesu ceisiadau gan reolyddion parthed ffioedd ardystio ymarfer a newidiadau i'w trefniadau rheoleiddiol.

Mae'r strategaeth yn bennaf yn canolbwyntio ar reoleiddio yn y sector, ond byddwn yn chwarae **rhan weithredol mewn trafodaethau ar faterion polisi cyhoeddus ehangach**. Er enghraifft, mae'r sector cyfreithiol a ariennir gan y cyhoedd yn ffynhonnell cryn bryder i nifer, ac os ydym wir am daclo'r angen nad yw wedi ei fodloni, mae angen diwygio. Felly hefyd, mae diwygiadau i systemau cyfiawnder troseddol, sifil a gweinyddol yn faterion polisi cyhoeddus. Yn y pen draw, mae i ba raddau y bydd cyllid cyhoeddus ar gael yn y system cyfiawnder troseddol yn benderfyniad gwleidyddol a wneir gan Lywodraethau. Fodd bynnag, ble mae'r materion hyn yn effeithio ar ein hamcanion statudol, byddwn yn hysbysu'r drafodaeth trwy ddarparu tystiolaeth i'r penderfynyddion.

Rydym yn byw mewn amgylchedd trawsnewidiol a achoswyd gan newidiadau demograffig a chymdeithasol, datblygiadau mewn technoleg a'r pandemig COVID-19, ble roedd newidiadau mewn ymarfer y tu hwnt i amgyffred rhywun llai na blwyddyn yn ôl bellach y normal newydd. Mae hyn yn ei gwneud yn bwysicach nag erioed i ddilyn **dull wedi ei ysgogi gan ddata** i ddeall goblygiadau'r newidiadau hyn, i brofi os oes angen ymyraethau, gwerthuso pa fath o ymyraethau a weithiodd orau, ac i geisio cynnwys ac ymgysylltu defnyddwyr gwasanaeth yn y gwaith y gynllunio polisi. Felly, bwriadwn fuddsoddi ymhellach yn ein swyddogaeth dealltwriaeth o'r farchnad ac ymchwil a chynnal ein ffocws ar gyfathrebu casgliadau ymchwil.

Byddwn yn mewnosod **dull segmentiad** sy'n nodi gwahanol anghenion a phrofiad dinasyddion, defnyddwyr a gweithwyr cyfreithiol yn unol â'n dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Ein hymagwedd tuag at y strategaeth


Yr heriau sydd gerbron y sector

Er mwyn datblygu'r strategaeth hon, rydym wedi myfyrio ar ddeng mlynedd o reoleiddio gwasanaethau cyfreithiol hyd yma. Trwy broses o gasglu a dadansoddi tystiolaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgysylltu â'r cyhoedd, rydym wedi nodi **cyfres o heriau allweddol i'r sector eu taclo**.

Fe sefydlom yr heriau hyn yn ein hadroddiad **Cyflwr Gwasanaethau Cyfreithiol 2020**.

Edefyn aur y strategaeth yw'r angen i ailffurfio gwasanaethau cyfreithiol i fodloni gofynion cymdeithas yn well. Rydym wedi grwpio'r heriau sy'n wynebu'r sector dan **dair thema strategol**: canlyniadau mwy teg, mwy o hyder a gwell gwasanaethau.

Strategaeth ar gyfer y sector – yn gryno



Cyfeiriad strategol ar gyfer y sector

Credwn fod yr heriau hyn wedi eu gwreiddio'n ddwfn a dim ond yn y tymor hir y gellir eu datrys. Felly, mae'r ddogfen hon yn gosod **cyfeiriad strategol dros ddeg mlynedd ar gyfer y sector, gyda ffocws penodol ar rôl rheoleiddio.**

Awgryma'r strategaeth **tuag at ble y dylem fod yn anelu** gan esbonio'r buddion i ddinasyddion, y cyhoedd, defnyddwyr, gweithwyr cyfreithiol a chymdeithas os bodlonir yr heriau hyn.

I helpu cyrraedd y gyrchfan hon, yn erbyn pob un o'r heriau rydym y nodi **meysydd blaenoriaeth i'r sector ganolbwyntio arnynt yn ystod y tair blynedd nesaf.** Rydym hefyd yn sefydlu sut **gallai'r LSB gyfrannu** tuag at hybu'r blaenoriaethau hyn yn ystod y tair blynedd nesaf.

Bydd ffrydiau gwaith a mesurau cyflawni penodol yn cael eu sefydlu yng **nghynlluniau busnes blynyddol** LSB.

Bydd bodloni'r heriau hyn yn galw am **ddull traws sector yn cynnwys cydweithredu** rhwng nifer eang o chwaraewyr sy'n gweithio yn y sector ac y mae ei lwyddiant o fudd iddynt. Mae hyn yn cynnwys llywodraeth, rheolyddion, arweinyddion proffesiynol, busnesau cyfreithiol, ymysg eraill. Ni allwn ymrwymo eraill i nodau neu weithredoedd penodol, ond rydym yn ceisio perswadio rhanddeiliaid o'n hagenda arfaethedig ar gyfer newid yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'r dystiolaeth sydd ar gael. Yn rhan o'n hymgyngoriad i'r strategaeth, gwahoddwn unigolion a sefydliadau i gamu ymlaen a nodi ble gallant wneud newid cadarnhaol i'r agenda cyffredin hwn.

Y fframwaith ar gyfer y strategaeth hon

Amserlen	Diben
2021-31	Cyfeiriad strategol 10 mlynedd <ul style="list-style-type: none">Yn gosod y cyfeiriad hirdymor, themâu strategol a heriau i'w datrys
2021-24	Blaenoriaethau strategol 3 blynedd <ul style="list-style-type: none">Yn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer ffocwsYn gwahodd arweinwyr y sector i ddeud sut byddant yn cyfrannuYn disgrifio ble bydd yr LSB yn cyfrannu
2021-22	Cynlluniau busnes blynyddol <ul style="list-style-type: none">Yn gosod cynlluniau penodol a chanlyniadau ar gyfer yr LSB

Y cyfeiriad – ymhen 10 mlynedd...

Efallai y bydd y farchnad gwasanaethau cyfreithiol yn edrych yn wahanol iawn ddeng mlynedd o heddiw, yn fwyaf tebygol mewn ffyrdd na all yr un ohonom ragweld heddiw. Mae pa ffurf fydd ar y farchnad yn llawer llai pwysig na bod y farchnad yn cyflawni gwasanaethau cyfreithiol sy'n bodloni anghenion cymdeithas yn well.

Dyma'r math o ganlyniadau rydym yn disgwyl eu gweld os bydd y newidiadau hyn yn bodloni ein nodau o ddeilliannau mwy teg, mwy o hyder a gwell gwasanaethau.

- Dengys arolygon leihad mawr mewn angen cyfreithiol na fodlonir a bod canlyniadau a phrofiad gwasanaethau cyfreithiol yn llawer mwy cyfartal ar draws y boblogaeth.
- Ceir rhwyd ddiogelwch gadarn a ariennir gan y cyhoedd i ddinasyddion sydd angen cymorth ariannol i gael mynediad at wasanaethau cyfreithiol, wedi ei hatgyfnerthu gan sylfaen gadarn o'r trydydd sector a darparwyr cynaliadwy.
- Mae gan y rhan fwyaf o aelwydydd bolisi yswiriant costau cyfreithiol neu fecanweithiau eraill sy'n eu galluogi i gael mynediad at amrediad eang o wasanaethau cyfreithiol am ddim ar y pwynt mae ei angen.
- Manteisiwyd at gyfleoedd i symleiddio'r gyfraith ac mae'n gyffredin i ddinasyddion ddefnyddio dewisiadau amgen i'r llysoedd i ddatrys anghydfodau
- Mae Cymru a Lloegr yn arwain y byd o ran mesurau rhyngwladol ar reolaeth cyfraith.
- Mae dinasyddion yn gwybod eu hawliau a dyletswyddau, gyda gwell dealltwriaeth o wasanaethau cyfreithiol ac yn gallu llywio'r farchnad i ddewis darparwyr gwasanaethau cyfreithiol gyda hyder.
- Gall defnyddwyr gymharu cost ac ansawdd gwahanol ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol a pha wasanaethau maent yn eu darparu yn hawdd. Mae'n arfer cyffredin i ddefnyddio offer cymharu.
- Ceir cystadlu iach a diwylliant o arloesi ar draws y farchnad.
- Mae gweithwyr cyfreithiol proffesiynol mor amrywiol â'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn wir ar gyfer pob lefel o'r proffesiynau – o newydd-ddyfodiaid i arweinyddion uwch, ac yn y farnwriaeth.
- Mae yna ddiwylliant gwirioneddol gynhwysol ble mae'r amrywiaeth meddyliau y bydd pobl gyda gwahanol brofiadau ac amgylchiadau mewn bywyd yn cael ei hyrwyddo.
- Mae pob cyfreithiwr yn barod i ateb anghenion yr amrywiol gymunedau maent yn eu gwasanaethu.
- Darperir gwasanaethau cyfreithiol yn rheolaidd yn defnyddio technoleg a ymddiriedir sy'n galluogi defnyddwyr i gael mwy o ddewis o ran sut maent yn cyrchu gwasanaethau cyfreithiol.
- Mae seilwaith digidol a sgiliau technolegol yn rhan ganolog o'r sgiliau mae gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn eu datblygu a chynnal trwy gydol eu gyrfa.
- Mae cwmpas rheoleiddio yn adlewyrchu'r risgiau allweddol i ddefnyddwyr a lles y cyhoedd.
- Mae gan ddefnyddwyr o bob cefndir fynediad hwylus i'r gwasanaethau maent angen, maent yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbyniant a gallant gael mynediad cyflym a theg i unioniad.
- Mae'r fframwaith deddfwriaethol yn glir, modern ac addas i'r diben.

Blaenoriaethau ar gyfer y sector yn 2021-24

Dros y tudalen nesaf, awgrymwn flaenoriaethau i'r sector ganolbwyntio arnynt yn ystod y tair blynedd nesaf. Rhestrir pob un o'r blaenoriaethau dan un o'r naw her a sefydlir uchod, ond yn ymarferol mae nifer ohonynt yn cyfrannu i heriau lluosog a'u themâu strategol cysylltiedig.

Ailffurfio gwasanaethau cyfreithiol i fodloni gofynion cymdeithas yn well	Canlyniadau mwy teg	Gwella hyder	Gwell gwasanaet hau
HER 1 Lleihau angen cyfreithiol na fodlonir ar draws rhannau helaeth o gymdeithas			
Lleihau rhwystrau ariannol i lwyddiant	✓		
Lleihau rhwystrau nad ydynt yn ariannol i lwyddiant	✓	✓	✓
Datblygu strategaeth cefnogaeth gyfreithiol ar gyfer busnesau bach	✓	✓	✓
HER 2 Cyflawni gwell deilliannau ar gyfer pobl sy'n profi mwy o anfantais			
Creu marchnad fwy teg ar gyfer dinasyddion sy'n byw mewn amgylchiadau bregus	✓	✓	✓
Mesur deilliannau ar gyfer dinasyddion sy'n byw mewn amgylchiadau bregus	✓	✓	✓
HER 3 Diosg rhwystrau i broffesiwn amrywiol a chynhwysol ar bob lefel			
Cryfhau'r sylfaen tystiolaeth ar amrywiaeth a chynhwysiant	✓	✓	✓
Gwella dulliau gwerthuso mentrau amrywiaeth a chynhwysiant	✓	✓	
Delio â materion dargadw a chynnydd yn ogystal â mynediad	✓	✓	✓
HER 4 Sicrhau gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd uchel a moeseg broffesiynol gryf			
Sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn esblygu i fodloni disgwyliadau newidiol		✓	✓
Sicrhau bod gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn parhau i fod yn gymwys trwy gydol eu gyrfaoedd		✓	✓
HER 5 Cau bylchau mewn diogelu'r cyhoedd			
Alinio rheoleiddio i risg fel bod y cyhoedd wedi ei ddiogelu'n briodol		✓	
Darparu mynediad cyffredinol i unioniad ar draws y farchnad		✓	✓
Cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r amddiffyniad sydd ar gael i ddefnyddwyr		✓	
HER 6 Diwygio'r system cyfiawnder ac ail lunio'r tirlun rheoleiddio			
Gwneud diwygiadau fel bod rheoleiddio yn parhau i fod yn addas i'r diben	✓	✓	
Ymdrin â chwynion yn well		✓	✓
HER 7 Grymuso defnyddwyr i gaffael gwasanaethau o ansawdd uchel a fforddiadwy			
Hybu tryloywder gan ddarparwyr o ran pris ac ansawdd	✓	✓	✓
Hwyluso offer sy'n galluogi defnyddwyr i gymharu darparwyr yn hawdd	✓	✓	✓
Lleihau cymhlethdod – 'Cynnyrch Cyfreithiol Syml'?	✓	✓	✓
HER 8 Meithrin arloesi sy'n dylunio gwasanaethau o amgylch anghenion defnyddwyr			
Parhau i adolygu rheoleiddio fel nad yw'n llesteirio arloesi		✓	✓
Creu amgylchedd reoleiddio sy'n meithrin arloesi		✓	✓
HER 9 Cefnogi defnydd cyfrifol o dechnoleg sy'n sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd			

Datblygu mwy o ddata agored a data agored gwell	✓	✓	✓
Sicrhau bod defnydd o dechnoleg sy'n codi yn foesebol ac yn 'gymdeithasol dderbyniol'		✓	
Darparu rheoleiddio effeithiol ar gyfer gwasanaethau yn defnyddio technolegau sy'n codi	✓	✓	✓
Lleihau allgáu digidol a chynnal dewisiadau amgen ar gyfer gwasanaethau allweddol	✓		

Canlyniadau mwy teg

Her 1

Lleihau angen cyfreithiol na fodlonir ar draws rhannau helaeth o gymdeithas

Blaenoriaethau ar gyfer y sector yn 2021-24

Gall amrywiol flaenoriaethau ar draws y strategaeth hon helpu lleihau angen cyfreithiol nad yw wedi ei bodloni, yn cynnwys ysgogi mwy o arloesi, grymuso defnyddwyr a diwygiadau i'r system cyfiawnder. Gall nifer o'r gweithgareddau y gall rheolyddion fynd ar eu trywydd, fel y rhai sy'n help defnyddwyr i arfer dewis, helpu lleihau angen cyfreithiol nad yw wedi ei fodloni. Fodd bynnag, mae gweithgareddau sy'n cael effaith mwy uniongyrchol, yn cynnwys cymorth cyfreithiol, ariannu asiantaethau cynghori a gweithredu'r llysoedd, yn fater polisi cyhoeddus fel arfer. Yn ogystal, mae angen elfen o realaeth o ran i ba raddau y gall marchnad gwasanaethau cyfreithiol sy'n gweithredu'n well ddarparu mwy o fynediad at gyfiawnder.

Lleihau rhwystrau ariannol i lwyddiant

Mae system cymorth cyfreithiol sydd wedi ei hariannu'n briodol, trydydd sector cryf a sylfaen gynaliadwy o ddarparwyr oll yn elfennau allweddol i system cyfiawnder teg. Mae adolygiadau cyfredol y llywodraeth o gymorth cyfreithiol, yn ogystal ag ymchwiliad y Pwyllgor Cyfiawnder i ddyfodol cymorth cyfreithiol, yn gyfleoedd pwysig i gyrraedd setliadau newydd ar gyfer dinasyddion sy'n cyrchu cefnogaeth ac ar daliadau i ddarparwyr. Yn ogystal, mae gwasanaethau cyfreithiol yn rhywbeth na all nifer mewn cymdeithas ei fforddio, nid dim ond cartrefi ar incwm isel.

Rydym angen newid mewn meddylfryd i ystyried y system cyfiawnder i fod yn fudd yn hytrach na chost i gymdeithas, a ble mae holl gostau system materion cyfreithiol yn cael eu cydnabod yn briodol mewn blaenoriaethau gwariant cyhoeddus. Ar yr un pryd, mae angen i'r sector gyfreithiol wella ei allu i feintoli'r effeithiau hyn, gan werthuso beth sy'n gweithio ac arddangos manteision ymyraethau.

Mae'r sector hefyd angen ystyried datrysiadau a allai wneud y gwasanaethau cyfreithiol sydd ar gael yn fwy fforddiadwy ar y pwynt ble mae ei angen neu i helpu defnyddwyr i reoli'r gost. Er enghraifft, yn aml bydd anghenion cyfreithiol yn annisgwyl, ac ychydig o ddefnyddwyr sy'n bodloni'r costau o incwm i'w wario. Ac eto, ychydig iawn o ddarparwyr sy'n galluogi defnyddwyr u dalu mewn rhandaliadau neu i ddefnyddio credyd, a allai eu helpu i reoli'r taliadau hyn. Anaml iawn y defnyddir yswiriant costau cyfreithiol i dalu am wasanaethau cyfreithiol, er gwaethaf y ffaith fod gan filiynau o aelwydydd bolisiau. Nid yw gwasanaethau cyfreithiol mewn pecyn agored (ble mae defnyddwyr a chyfreithwyr yn rhannu'r gwaith) mor gyffredin ag y disgwyliwyd.

Mae'r rhain yn llwybrau a allai gyfrannu at leihau rhwystrau ariannol i fynediad.

Lleihau rhwystrau nad ydynt yn ariannol i lwyddiant

Tra bod cost yn atalfa anorchfygol i nifer o bobl, mae'r rhwystrau i fynediad yn mynd tu hwnt i gost, gan gynnwys materion cymhlethdod y gyfraith, galluedd cyfreithiol a dyluniad y gwasanaeth.

Sefydlodd Strategaeth Cefnogaeth Gyfreithiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder Iwybr newydd ar gyfer trawsnewid y system cefnogaeth gyfreithiol. Croesawyd ei bwylais ar ymyrraeth gynnar, datrysiadau fel canolfannau cefnogaeth gyfreithiol a ffocws ar arloesi; bydd yn bwysig gweithredu'r rhaglen hon yn llawn.

Gall polisi cyhoeddus helpu dileu rhwystrau nad ydynt yn ariannol diangen at fynediad mewn ffyrdd eraill. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys gwneud newidiadau i'r gyfraith sy'n dileu rhai o'r cymhlethdodau sylfaenol wrth wraidd materion cyfreithiol (e.e. ysgariad 'heb fai', llofnodion electronig) a defnyddio technoleg i symleiddio prosesau cyfreithiol (e.e. ceisiadau ar-lein

Sut fydd LSB yn cyfrannu i'r flaenoriaeth hon yn 2021-24

- Parhau ein rhaglen o ymchwil i anghenion cyfreithiol
- Archwilio os a sut gallai yswiriant costau cyfreithiol helpu lleihau angen cyfreithiol nad yw wedi ei fodloni trwy ysgogi trafodaethau ac ychwanegu ein llais i'r drafodaeth
- Cyflwyno'r achos ar gyfer strategaeth cefnogaeth gyfreithiol i fusnesau bach wedi ei ategu gan ymchwil newydd gan yr LSB ar anghenion a phrofiadau cyfreithiol y defnyddwyr hyn
- Chwarae rhan fwy gweithredol mewn materion polisi cyhoeddus (ble mae'r rhain yn berthnasol i'n hamcanion statudol ac y gallwn ychwanegu dealltwriaeth berthnasol)
- Byddai ein syniad ar gyfer 'cynnyrch cyfreithiol syml' hefyd yn cyfrannu (gweler Gwell gwasanaethau)

Her 2

Cyflawni gwell deilliannau ar gyfer pobl sy'n profi mwy o anfantais

Blaenoriaethau ar gyfer y sector yn 2021-24

Mae bregusrwydd, fel term eang, yn cyfeirio at unrhyw sefyllfa ble mae'n bosibl nad yw unigolyn yn gallu ymgysylltu'n effeithiol a bod perygl mawr o gael cynnig gael². Gall bregusrwydd ddeillio o gyd-destun penodol y farchnad ac effeithio ar nifer eang o bobl. Neu, gall bregusrwydd fod yn gysylltiedig â nodweddion personol, fel anabledd corfforol, iechyd meddwl gwael neu incwm isel, a allai achosi i unigolion gyda'r nodweddion hynny wynebu problemau arbennig o ddifrifol a parhaus. Bydd cyswllt uniongyrchol rhwng rhai anghenion cyfreithiol a nodweddion personol, er enghraifft materion yn ymwneud â galluedd meddyliol.

Bwriedir i'r system cymorth cyfreithiol fod yn rhwyd ddiogelwch i'r mwyaf bregus mewn cymdeithas. Fel y nodwyd uchod, mae adolygiadau polisi cyfredol yn darparu cyfleoedd i lywodraeth sicrhau bod y rhwyd ddiogelwch hon yn dal pawb sydd fwyaf angen cymorth am resymau ariannol neu eraill.

Creu marchnad fwy teg ar gyfer dinasyddion sy'n byw mewn amgylchiadau bregus

Gall sut mae marchnadoedd yn gweithredu, sut mae gwasanaethau wedi eu cynllunio, a sut mae darparwyr yn ymddwyn, oll arwain at ddeilliannau sy'n waeth i rai pobl nag i eraill. Mae'r annhegwch hwn mewn marchnadoedd yn aml yn amhosibl i'r osgoi a gall ddeillio o ddiffyg dealltwriaeth ar ran darparwyr gwasanaeth. Mae yna rôl ar gyfer arweinyddiaeth broffesiynol i godi ymwybyddiaeth a darparu cefnogaeth ymarfer gan y gall newidiadau cymharol fân yn aml wneud gwahaniaeth mawr i leihau bregusrwydd.

Fodd bynnag, mae rhai darparwyr yn achosi nifer trwy beidio ystyried bregusrwydd yn eu darpariaeth gwasanaeth, neu yn yr achosion gwaethaf trwy fanteisio ar anallu unigolyn i ddiogelu ei hun. Gall rheoleiddio helpu sicrhau triniaeth fwy teg o bobl mewn sefyllfaoedd bregus. Mae hyn yn cynnwys trwy'r system addysg a hyfforddiant, codau ymddygiad, asesiadau risg, goruchwyliaeth a gorfodi. Dylai cyrff cwynion a disgyblu hefyd ystyried bregusrwydd yn eu penderfyniadau a chynnig cefnogaeth rannol ar gyfer pobl yn defnyddio eu gwasanaethau.

Mewn rhannau eraill o'r economi, mae rheolyddion wedi datblygu ymarfer i wella eu gallu nodi pobl mewn sefyllfaoedd bregus³ a strategaethau⁴ sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod cwmnïau yn trin eu cwsmeriaid yn deg ac yn mewnosod ystyriaethau bregusrwydd i'w diwylliant, polisïau a phrosesau. Gan fod gwasanaethau cyfreithiol yn amrywiol, bydd bregusrwydd yn codi mewn gwahanol ffyrdd ar draws y farchnad. Er bod yna rai egwyddorion cyffredinol, mae angen i bob rheoleiddiwr ddeall sut gall bregusrwydd ddigwydd yn eu cyd-destunau gweithredu a chymryd camau priodol.

² CMA, Consumer vulnerability: challenges and potential solutions, Chwefror 2019.

³ <https://www.ukrn.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/UKRN-Vulnerable-Consumers-Guide.pdf>

⁴ <https://www.fca.org.uk/firms/treating-vulnerable-consumers-fairly>

Mesur deilliannau ar gyfer dinasyddion sy'n byw mewn amgylchiadau bregus

Dengys ymchwil anghenion cyfreithiol yr LSB werth dull wedi ei ysgogi gan ddata i olrhain ble mae grwpiau penodol yn derbyn llai o sylw gan wasanaethau cyfreithiol. Mae angen cyflawni ymchwil ansoddol i ategu hyn sy'n galluogi dealltwriaeth ddyfnach, byd go iawn ar brofiad pobl mewn amgylchiadau bregus o wasanaethau cyfreithiol. Dylai segmentu ac ymchwil fel hyn fod yn nodwedd gyffredin ar gyfer llunio polisïau yn y sector. Mae hyn yn gam angenrheidiol i deilwra ymatebion polisi i helpu osgoi neu leihau effeithiau anghymesur ar gyfer y dinasyddion hyn.

Mae angen mewnosod yr egwyddor hon trwy gydol prosesau rheoleiddio ac mae angen arddangos sut mae'r ystyriaethau hyn yn hysbysu blaenoriaethau a gwneud penderfyniadau. Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn un enghraifft o offeryn allai helpu. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu defnyddio cymaint ag y dylid, ac mae'r dadansoddiad yn aml yn fratio ac anghyflawn. Gallai hyn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth o fregusrwydd yn y farchnad.

Sut fydd LSB yn cyfrannu i'r flaenoriaeth hon yn 2021-24

- Hyrwyddo dull mwy strategol i fregusrwydd o ran sut mae dinasyddion yn cael mynediad at ac yn defnyddio gwasanaethau cyfreithiol
- Cyflawni ymchwil arddull astudiaethau achos gyda grwpiau penodol o ddinasyddion
- Trwy ein gwaith penderfyniadau statudol, sicrhau bod ystyriaethau bregusrwydd wedi eu hystyried yn briodol yng ngweithgareddau rheolyddion
- Chwarae rhan fwy gweithredol mewn materion polisi cyhoeddus (ble mae'r rhain yn berthnasol i'n hamcanion statudol ac y gallwn ychwanegu dealltwriaeth berthnasol)

Her 3

Diosg rhwystrau i broffesiwn amrywiol a chynhwysol ar bob lefel

Blaenoriaethau ar gyfer y sector yn 2021-24

Mae angen i wella amrywiaeth a chynhwysiant fod yn flaenoriaeth arwyddocaol i'r sector. Rhaid cynnwys amrywiaeth eang o chwaraewyr, yn cynnwys arweinyddiaeth broffesiynol, i weld cynnydd go iawn a chyflymach. Mae rôl rheoleiddio yn y gofod hwn yn wahanol iawn heddiw i beth oedd rhai blynyddoedd yn ôl. Mae gan reolyddion nawr fwy o ddi-ddordeb yn ymddygiad personol gweithwyr cyfreithiol proffesiynol – er enghraifft, mewn perthynas â chyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol, aflonyddu rhywiol a bwlio – nag yn y gorffennol. Disgwyliwn i rôl rheolyddion ddal i esblygu yn hyn o beth.

Cryfhau'r sylfaen tystiolaeth ar amrywiaeth a chynhwysiant

Mae cael dealltwriaeth gadarn o gyfansoddiad y proffesiwn yn sail gychwynnol allweddol ar gyfer sector er mwyn targedu ei ymdrechion ac i arddangos bod gweithredoedd yn cael effaith.

Mae llawer o gynnydd cymharol wedi bod o ran casglu data, ond mae gwendidau a bylchau'n parhau. Er enghraifft, nid yw mudoledd cymdeithasol wedi bod mor amlwg yn y sylfaen o dystiolaeth, a dim ond yn ddiweddar y dechreuwyd ystyried rhyngblethedd. Mae creu darlun ar draws y sector yn heriol hefyd oherwydd y gwahaniaeth mewn arferion casglu data.

Yn ogystal â gwella gwybodaeth ystadegol, mae angen creu darlun mwy cyfoethog o brofiad byw gweithwyr cyfreithiol proffesiynol. Trwy astudiaethau yn canolbwyntio ar rywedd ac anabledd rydym wedi gweld dystiolaeth bwerus sydd wedi bod yn alwad i weithredu. Mae angen gwella'r dystiolaeth parthed agweddau eraill, yn cynnwys ar hil a chefnidir economaidd-gymdeithasol.

Bwlch pwysig mewn gwybodaeth yw'r diffyg mesurau i ddeall unrhyw effaith wahaniaethol ar nodweddion gwarchoddedig o fewn gweithdrefnau disgyblu a gorfodi. Oni bai bod hyn wedi ei fesur, ni all y sector ddatgan yn hyderus nad oes problemau'n bodoli. Mae dadansoddiad hanesyddol o ddata gan SRA a BSB yn gam cyntaf da.

Gwella dulliau gwerthuso mentrau amrywiaeth a chynhwysiant

Mae yna nifer o fentrau wedi bod yn llawn bwriadau da gyda'r nod o wella amrywiaeth a chynhwysiant, ond mae gwerthusiad yn brin, ac mae hyn yn ei gwneud cymaint yn anoddach i wybodaeth beth sy'n symud y deial fwyaf. Mae'n allweddol bod pawb sy'n gyfrifol am fentrau o'r fath, yn cynnwys rheolyddion, yn canolbwyntio ar gynllunio dulliau gwerthuso sy'n asesu effaith ac yn monitro cynnydd dros gyfnod o amser.

Yn fwy eang, mae'r sector angen bod yn fwy cynhwysol yn y modd mae'n datblygu polisi a gwneud hyn mewn ffordd dryloyw fel y gellir ei ddal yn atebol. Mae arddangos dadansoddiad o effaith gweithgareddau ar y nodweddion gwarchoddedig yn ofyniad cyfreithiol dan y Ddeddf Cydraddoldeb, nid dim ond mater o arfer da. Fel y nodwyd uchod, gall asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb helpu yn hyn o beth, ond mae defnydd yn dameidiog, ac fe ellid gwella safonau dadansoddi.

Delio â materion dargadw a chynnydd yn ogystal â mynediad

Tra bod lluniad y proffesiwn yn well adlewyrchiad o gymdeithas nag yr oedd ddeng mlynedd yn ôl, mae angen talu llawn cymaint o sylw i faterion dargadw a chynnydd ag sydd i fynediad. Yn yr adroddiad Cyflwr Gwasanaethau Cyfreithiol 2020, disgrifiom sut mae rhai gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn wynebu nifer o rwystrau sy'n cyfuno i ffafrio pobl o rai grwpiau ac yn eithrio eraill ar lefelau uwch y proffesiwn, yn cynnwys, ond yn sicr nid yn gyfyngedig i, y farnwriaeth. Mae'r rhwystrau hynny'n cynnwys ffafrio sefydliadau addysgol "elitaid", arferion gwaith a diwylliannau sy'n eithrio, dehongliadau digynsail o "hierarchaeth" rhwng gwahanol fathau o weithwyr cyfreithiol proffesiynol, a "homoffiledd" (tuedd i ffafrio pobl sy'n debyg i ni'n hunain).

Mae'r sector gyfreithiol angen rhaglenni effeithiol i gyflawni proffesiwn amrywiol a chynhwysol o fynediad hyd at lefelau uwch. I wneud hynny, mae angen nodi'r rhwystrau i fynediad a chynnydd, ac i gael gwell dealltwriaeth o achosion cyfraddau gadael, ar gyfer grwpiau penodol.

Sut fydd LSB yn cyfrannu i'r flaenoriaeth hon yn 2021-24

- Cwblhau gwaith i ddadansoddi dulliau cyfredol rheolyddion yn feirniadol o ran deall rhwystrau i gynnydd a gwerthuso. Bydd hyn yn ein helpu i nodi enghreifftiau da o werthuso a mentrau sy'n cael effaith positif
- Adolygu ein disgwyliadau o reolyddion parthed amrywiaeth a chynhwysiant, yn cynnwys ein canllaw statudol a safonau perfformiad rheoleiddiol
- Cynnull a chyd-gynhyrchu gwaith ar faterion yn cynnwys agweddau i gynllunio a gwerthuso ymyraethau; casglu a defnyddio data; a phrofiad bywyd gweithwyr cyfreithiol proffesiynol
- Trwy ein gwaith penderfyniadau statudol sicrhau bod ystyriaethau amrywiaeth wedi eu hystyried yn briodol ym mhenderfyniadau'r rheolyddion

Gwella hyder

Her 4

Sicrhau gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd uchel a moeseg broffesiynol gryf

Blaenoriaethau ar gyfer y sector yn 2021-24

Sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn esblygu i fodloni disgwyliadau newidiol

Mae systemau addysg a hyfforddiant cyfreithwyr a bargyfreithwyr wedi eu diwygio'n sylweddol yn ystod y cyfnod diwethaf. Roedd amcanion y diwygiadau hyn yn cynnwys ailosod disgwyliadau o'r safonau gofynnol mae cymdeithas yn ei ddisgwyl gan gyfreithwyr, lleihau cost hyfforddiant a delio ag anghydfod mewn deilliannau rhwng myfyrwyr o wahanol gefndiroedd. Nesaf, bydd y ffocws cychwynnol yn y rhannu hyn o'r farchnad ar weithredu a gwerthuso. Ar yr un pryd, nid yw'r diwygiadau hyn yn ateb i bob problem o ran materion addysg a hyfforddiant.

Er nad yw'n debygol y bydd yna ddiwygiadau mor fawr i addysg a hyfforddiant yn y dyfodol agos, rhaid i'r systemau hyn ddal i esblygu i fodloni disgwyliadau newidiol gweithwyr cyfreithiol proffesiynol. Er enghraifft, mae yna drafodaeth fyw ar beth allai rheolyddion ei wneud i sicrhau bod addysg gyfreithiol yn delio â'r heriau a gyflwynir gan dechnoleg, fe bod gan gyfreithwyr yr wybodaeth a sgiliau gofynnol i lunio a defnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol yn effeithiol a moesegol. Gallai ffrydiau eraill yn y strategaeth hon, er enghraifft parthed bregusrwydd, hyrwyddo teimlad cryfach o broffesiynoldeb a chreu diwylliant mwy cynhwysol yn y proffesiwn, hefyd gael goblygiadau ar gyfer darparu addysg a hyfforddiant.

Sicrhau bod gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn parhau i fod yn gymwys trwy gydol eu gyrfaedd

Mae cyfreithwyr yn helpu ein cadw'n ddiogel, yn gwarchod ein rhyddid, ac yn gorfodi ein hawliau. Maent yn ein cynorthwyo pan fydd y perygl ar ei fwyaf ac yn ystod y cyfnodau anoddaf yn ein bywydau. Felly, pan fydd y cyhoedd yn defnyddio gwasanaethau cyfreithiol, maent angen gwybod bod y gweithwyr sy'n eu helpu yn cymwys – nid dim ond wrth dderbyn cymhwyster, ond trwy gydol eu gyrfaedd. Yn ogystal â diogelu pobl rhag niwed, mae hyn yn ymwneud ag ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau cyfreithiol.

Yn ystod 2020/21, casglodd yr LSB wybodaeth am ddulliau cyfredol i sicrwydd cymhwyster mewn gwasanaethau cyfreithiol ac mewn sectorau eraill. Mae ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi nodi barn y gall fod angen cadw cydbwysedd pellach. Mae yna rywfaent o gefnogaeth ar gyfer gwiriadau cymhwyster ychwanegol ar draws y sector i ddarparu sicrwydd mwy ystyrion fod gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn bodloni'r safonau cymhwyster gofynnol sydd wedi ei fewnosod yn rheolau cyfredol y rheolyddion. Mae yna rywfaent o gefnogaeth ar gyfer gwiriadau cymhwyster atodol mewn meysydd ble ceir tystiolaeth o risg cynyddol o niwed i ddefnyddwyr.

Bydd y ffocws nawr yn symud o gasglu tystiolaeth i nodi datrysiadau penodol.

Sut fydd LSB yn cyfrannu i'r flaenoriaeth hon yn 2021-24

- Cwblhau ein hadolygiad o gymhwyster parhaus a gweithredu'r casgliadau
- Mae ein gwaith ar benderfyniadau statudol a chymeradwyaeth PCF yn cyfrannu trwy sicrhau bod y mesurau diogelu priodol ar gyfer diogelu defnyddwyr yn weithredol a bod gan gyrff rheoleiddio adnoddau digonol i gyflawni eu rôl
- Dal rheolyddion yn atebol am eu perfformiad trwy ein fframwaith perfformiad rheoleiddiol

Her 5

Cau bylchau mewn diogelu'r cyhoedd

Blaenoriaethau ar gyfer y sector yn 2021-24

Mae'r materion yn yr adran hon yn ymwneud â materion sydd wedi bodoli ers amser maith heb eu datrys o ran cwmpas rheoleiddio. Mae'r adroddiad Cyflwr Gwasanaethau Cyfreithiol 2020 yn sefydlu pam ein bod yn ystyried y byddai'n ddelfrydol trawsnewid y fframwaith deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae yna gyfleoedd i gryfhau amddiffyniadau o fewn y system gyfredol a thrwy wneud mân newidiadau i'r Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007.

Alinio rheoleiddio i risg fel bod y cyhoedd wedi ei ddiogelu'n briodol

Mae yna lai o weithgareddau cyfreithiol sydd ddim ond ar gael trwy ddarparwyr rheoledig ag y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn tybio. Dim ond chwe gweithgaredd a ellir ei darparu gan unigolion neu endidau a awdurdodwyd gan un o'r cyrff rheoleiddio. Gall unrhyw un sefydlu busnes i gynnig y gweithgareddau sy'n weddill, sy'n cynnwys darparu cyngor cyfreithiol cyffredinol, ysgrifennu ewyllys neu drafod amodau mewn ysgariad. Ar hyn o bryd, credir bod y farchnad nad yw wedi ei rheoleiddio yn fechan, ond yn tyfu – a galli'r twf hwn gynyddu wrth iddi ddod yn fwy cyffredin darparu gwasanaethau cyfreithiol ar-lein.

Nid yw hyn o reidrwydd yn broblem os yw'r rhestr o 'weithgareddau cyfreithiol neilltuedig' yn cyd-fynd yn dda gyda meysydd ble ceir y risg mwyaf o niwed i ddefnyddwyr a lles y cyhoedd. Yn wir, ceir tystiolaeth bod darparwyr nad ydynt wedi eu rheoleiddio yn fwy arloesol ac yn rhatach na chwmnïau eraill – gallai rheoleiddio'r gweithgareddau hyn heb gyfiawnhad ddileu'r manteision hyn. I gydbwyso hyn, mae tystiolaeth bod boddhad cwsmeriaid gyda darparwyr heb eu rheoleiddio yn is nag ar gyfer cwmnïau sydd wedi eu rheoleiddio. Nid yw pa weithgareddau cyfreithiol dylid eu rheoleiddio wedi ei adolygu'n ddiweddar, ond mae'r Ddeddf yn cynnwys mecanwaith i newid beth sydd o fewn a thu allan i'r cwmpas. Mae hyn yn galw am i'r LSB gynnal ymchwiliadau ac o bosibl i wneud argymhellion i'r Arglwydd Ganghellor iddo wneud addasiadau i'r rhestr o weithgareddau cyfreithiol neilltuedig.

Rydym yn awyddus i glywed barnau ar sut y gellir symud ymlaen ar y materion hyn, yn cynnwys teilyngdod cael yr LSB i gyflawni adolygiad statudol o'r gweithgareddau cyfreithiol neilltuedig.

Darparu mynediad cyffredinol i unioniad ar draws y farchnad

Ar hyn o bryd, dim ond os yw'r darparwr a ddefnyddir wedi ei awdurdodi gan un o'r cyrff rheoleiddio y gall defnyddwyr wneud cwyn i Ombwdsmon y Gyfraith. Os yw defnyddwyr eisiau cwyno am ddarparwr nad yw wedi ei reoleiddio, oni bai bod y darparwr hwnnw yn cyflwyno ei hun yn wirfoddol i gynllun unioniad annibynnol, yr unig ddatrysiad sydd ar gael yw trwy'r llysoedd. Gall mynd i'r llys fod yn brofiad brawychus ac amhosibl ei fforddio i nifer o ddefnyddwyr. Mewn cyferbyniad, mae Ombwdsmon y Gyfraith am ddim i ddefnyddwyr ac mae'r pwyslais ar ddatrys anghydfodau yn gyflym a gyda chyn lleied o ffurfioldeb â phosibl.

Credwn y byddai hyder y cyhoedd wedi ei hybu pe byddai gan ddefnyddwyr fynediad cyffredinol i unioniad ar draws y farchnad. Byddai hyn yn galw am ddeddfwriaeth sylfaenol, ond byddai'n cau bwlch pwysig o ran diogelu'r defnyddwyr ac yn helpu busnesau nad ydynt wedi eu rheoleiddio i gystadlu'n fwy effeithiol. Yn ddelfrydol, byddai Ombwdsmon y Gyfraith yn ddarparwr unioniad unigol yn y sector. Dyma fyddai'r system symlaf i ddefnyddwyr ei llywio, darparu amddiffyniadau cyson ac i'w gwneud yn haws i echdynnu dysgu o gwynion. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar daclo'r ôl-groniad o gwynion yn Ombwdsmon y Gyfraith yn llwyddiannus, a'r gwasanaeth yn cynnig moddau datrys anghydfodau y gall busnesau nad ydynt wedi eu rheoleiddio ei fforddio.

Cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r amddiffyniad sydd ar gael i ddefnyddwyr

Fel y nodwyd uchod, mae yna gamgymhariad rhwng disgwyliadau'r cyhoedd a pha weithgareddau cyfreithiol wedi eu rheoleiddio. Dengys arolygon hefyd nad yw nifer o ddefnyddwyr yn gwirio os yw ei darparwr wedi ei reoleiddio, yn aml oherwydd y camdybiaethau hyn. Mae nifer o gwmnïau nad ydynt wedi eu rheoleiddio yn darparu gwasanaeth rhagorol, ond mae gan ddefnyddwyr lawer llai o amddiffyniad wrth eu defnyddio os bydd pethau'n mynd o chwith. Yn ddiweddar, mae rhai cyrff rheoleiddio wedi cyflwyno offer i'w wneud yn haws i bobl wirio os yw gweithwyr cyfreithiol proffesiynol ac endidau wedi eu rheoleiddio. Yn fuan bydd cyfleuster yn cael ei lansio ar y platfform Legal Choices i alluogi'r cyhoedd i chwilio am gofnodion disgyblu.

Mae'r rhain yn ddatblygiadau i'w croesawu, ond fe ddylai fod yn haws i'r cyhoedd gasglu gwybodaeth sylfaenol am ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi cau a'u cofnodion rheoleiddio. Yn Rhagfyr 2020, argymhellodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) y dylai'r LSB arwain ar ddatblygiad cofrestr digidol unigol o bersonau awdurdodedig yn cyfuno gwybodaeth rheoleiddio a gyda ffocws ar y cwsmer. Argymhellodd y CMA ar wahân y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder greu, neu rymuso greu, cofrestr gyhoeddus ofynnol o ddarparwyr heb eu rheoleiddio. Mae angen ystyried y berthynas rhwng y ddau gynnig yma yn ofalus.

Sut fydd LSB yn cyfrannu i'r flaenoriaeth hon yn 2021-24

Creu gwell dealltwriaeth o'r sector nad yw wedi ei rheoleiddio a risgiau i ddefnyddwyr

Ystyried adolygiad statudol o'r gweithgareddau cyfreithiol neilltuedig ac/neu archwilio defnydd i'n grymoedd a163 i fynd i drefniadau gwirfoddol i gefnogi hunan-reoleiddio

Mynd ar drywydd gwaith i greu cofrestr ddigidol unigol yn gweithio gyda'r cyrff rheoleiddio

Gweithio gyda Llywodraeth a'r OLC i ehangu mynediad i unioniad

Adolygu ein rheolau a chanllawiau a112 ar unioniad i ddefnyddwyr

Her 6

Diwygio'r system cyfiawnder ac ail-lunio'r tirlun rheoleiddio

Blaenoriaethau ar gyfer y sector yn 2021-24

Yn ogystal â'r materion rheoleiddio a sefydlir isod, mae perfformiad y system cyfiawnder yn gyffredinol hefyd yn effeithio ar hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau cyfreithiol. Disgrifia adroddiad Cyflwr Gwasanaethau Cyfreithiol 2020 bryderon am ein system cyfiawnder. Roedd y rhain yn rhagflaenu Covid-19, ond mae effeithiau'r pandemig wedi eu rhoi dan bwysau cynyddol. Gall rheoleiddio ddylanwadu ar weithrediad y system cyfiawnder, er enghraifft trwy sicrhau ansawdd eirioli.

Gwneud diwygiadau fel bod rheoleiddio yn parhau i fod yn addas i'r diben

Dim ond os yw eu fframwaith deddfwriaethol yn addas i'r diben all cyrff rheoleiddio berfformio'n effeithiol. Mae'r LSB, CMA ac Adolygiad Mayson ymysg y rhai sydd wedi galw am ddiwygio Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007. Barn yr LSB yw mai dim ond diwygio sylweddol all ddelio'n llawn â'r materion sydd o fewn cwmpas rheoleiddio, annibyniaeth rheoleiddio a'r tirlun sefydliadol. Yn y pen draw, rhaid i lywodraethau ystyried pa mor ddymunol yw diwygiadau mewn gwasanaethau cyfreithiol yn erbyn blaenoriaethau eraill. Wrth wneud hynny, efallai y byddant yn ystyried y manteision a geir o wasanaethau cyfreithiol sy'n gweithredu'n dda yn cyflawni, nid yn unig ar gyfer eu defnyddwyr uniongyrchol, ond i'r economi a chymdeithas.

Yn absenoldeb diwygio deddfwriaethol, mae'r strategaeth hon ar gyfer y sector yn sefydlu cyfleoedd i wneud newidiadau cam wrth gam. Mae'r rhain yn cynnwys addasu'r rhestr o weithgareddau cyfreithiol neilltuedig ac ymestyn amddiffyniad ar gyfer defnyddwyr yn defnyddio darparwyr nad ydynt wedi eu rheoleiddio. Efallai bod cwmpas i gyrff rheoleiddio symud i ffordd o'r dulliau 'y cwbl neu ddim' a dilyn rheoleiddio seiliedig ar weithgareddau sydd wedi ei deilwra'n agosach i risg. Fel mae rhai eisoes yn gwneud, mae gan y rheolyddion cymeradwy a'u cyrff rheoleiddio ryddid i sefydlu mwy o wahaniad sefydliadol na'r isafswm gofynion cyfreithiol. Trwy wella cydweithrediad, gall cyrff rheoleiddio daclo heriau cyffredin mewn ffordd fwy cyfunol a chelu cymhlethdod y tirlun sefydliadol. Mae'r enghreifftiau a amlygwyd yn y strategaeth hon yn cynnwys helpu arloeswyr i lywio'r rheolau, y platform Legal Choices a chofrestr ddigidol unigol.

Tu hwnt i wneud newidiadau i reolau a strwythurau, mae rhannau eraill o'r strategaeth yn amlygu'r angen am newid diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys camau ymarferol y gall cyrff rheoleiddiol eu cymryd i helpu meithrin arloesi a chryfhau eu ffocws ar ddefnyddwyr.

Ymdrin â chwynion yn well

Fel y nodwyd yn yr adroddiad Cyflwr Gwasanaethau Cyfreithiol 2020, mae gallu defnyddwyr i gwyno i un cynllun ombwdsmon unigol, hollol annibynnol yn elfen bwysig o ddarparu hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau cyfreithiol. Fodd bynnag, mae hyder y cyhoedd a phroffesiynol yn Ombwdsmon y Gyfraith yn cael ei erydu oherwydd ôl-groniad arwyddocaol o achosion, sy'n rhagflaenu Covid-19. Mae'r problemau perfformiad hyn yn ymestyn yn ôl dros nifer o flynyddoedd ac yn adlewyrchu'r gwendidau sylfaenol yn y sefydliad. Dan arweinyddiaeth newydd, y canlyniad gorau yw bod Ombwdsmon y Gyfraith yn gallu adfer y sefyllfa ac adennill hyder. Golyga maint yr her, sydd wedi eu gwneud yn anos fyth gan y pandemig, na fydd yr adferiad yn un hawdd na'n un fydd yn digwydd yn gyflym.

Ond bydd yn bwysig gallu gweld tystiolaeth glir yn fuan o lwybr gwelliant parhaus. Mae'r sector angen model datrys anghydfodau all ddarparu unioniad amserol ac effeithiol i ddefnyddwyr. Yn y pen draw, a dim ond os metho popeth arall ddylid defnyddio hyn, os daw'n amlwg na all Ombwdsmon y Gyfraith wella, rhaid ystyried dewisiadau amgen i'r model cyfredol.

Mae adfer perfformiad yn bwysig yng nghyd-destun cynigion i ehangu mynediad at unioniad yn defnyddio darparwyr heb eu rheoleiddio. Fel y nodwyd uchod, y dewis gorau fyddai cael cynllun unioniad statudol unigol i ddefnyddwyr yn cwmpasu'r sector gyfan. Pe byddai'r llywodraeth yn mynd ar drywydd cynigion o'r fath, bydd yn beth amser cyn y gellid cwblhau'r camau deddfwriaethol angenrheidiol. Erbyn hynny, gobeithiwn y bydd Ombwdsmon y Gyfraith yn gallu ymgymryd â'r llwyth achos atodol hwn. Fodd bynnag, ni ddylai gwella amddiffyniad i ddefnyddwyr ddibynnu ar adferiad Ombwdsmon y Gyfraith, sy'n galw am ystyriaeth o ddewisiadau ochr yn ochr â hyn.

Mae gan y Swyddfa ar gyfer Cwynion Cyfreithiol (OLC) strategaeth, sy'n cynnwys ffocws ar agenda atal sydd i'w groesawu. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cwynion fel offeryn dysgu i helpu'r sector i hybu safonau a rhannu data ar ei benderfyniadau i gefnogi dewis i ddefnyddwyr. Bydd yn bwysig hybu'r meysydd hyn ynghyd â gwella perfformiad y cynllun.

Mae blaenoriaethau eraill parthed cwynion sy'n codi o'n hadroddiad Cyflwr Gwasanaethau Cyfreithiol 2020 yn cynnwys cynnal ffocws ar gyfeirio defnyddwyr at fecanweithiau unioniad a pharhau i wella safonau haen gyntaf delio â chwynion.

Sut fydd LSB yn cyfrannu i'r flaenoriaeth hon yn 2021-24

Adeiladu ar a chryfhau fframwaith perfformiad rheoleiddiol yr LSB

Dal yr OLC yn atebol am wella perfformiad Ombwdsmon y Gyfraith

Cymryd rhan mewn adolygiadau polisi o'r systemau cyfiawnder troseddol, sifil a gweinyddol ble mae'r rhain yn berthnasol i'n hamcanion statudol ac y gallwn ychwanegu dealltwriaeth berthnasol

Gwell gwasanaethau

Her 7

Grymuso defnyddwyr i gaffael gwasanaethau o ansawdd uchel a fforddiadwy

Blaenoriaethau ar gyfer y sector yn 2021-24

Gwnaeth adolygiad y CMA o gynnydd yn 2020 ers ei astudiaeth o'r farchnad yn 2016 argymhellion yn sefydlu fframwaith ar lefel uchel i'w goruchwyllo a datblygu ymhellach gan yr LSB ac i'w gweithredu gan y cyrff rheoleiddio. Mae'r LSB wedi cytuno i gydlynu gweithgaredd ar draws y rheolyddion ac i frocera cydweithrediad i wella gwaith ymgysylltu a defnyddwyr yn y farchnad.

Bydd yr LSB yn cyhoeddi datganiad polisi statudol dan adran 49 y Ddeddf a fydd yn sefydlu disgwyliadau ar gyfer beth ddylai'r rheolyddion fod yn ei wneud i wella gwaith ymgysylltu â defnyddwyr. Bydd y datganiad polisi statudol yn sefydlu'r cyfeiriad i reolyddion ar nifer o'r materion a gyflwynir yn yr adrannau a ddilyn.

Hybu tryloywder gan ddarparwyr o ran pris ac ansawdd

Mae yna dystiolaeth galonogol fod mwy o wybodaeth ar gael ar brisiau a bod defnyddwyr yn ymgysylltu â hyn. Fodd bynnag, mae chwarter defnyddwyr yn dal i adrodd anhawster wrth chwilio am wybodaeth ar brisiau a dim ond o fymryn mae siopa o gwmpas wedi cynyddu. Yn ogystal, nid yw'r mesurau a gyflwynwyd dwy flynedd yn ôl gan y rheolyddion yn darparu cystadlu cryfach ar brisiau eto. Mae rhai darparwyr yn cyhoeddi nifer eang o brisiau tebygol, gydag eithafion o brisiau isel ac uchel nad ydynt yn rhoi fawr o syniad ble bydd y wir gost. Nid yw hyn yn bodloni ysbryd y rheolau nac yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ddarpar gwsmeriaid.

Mae tryloywder ansawdd gwasanaeth yn parhau i fod yn faes ble gwelwyd y cynnydd lleiaf ers adolygiad y CMA yn 2016. Yn fwy diweddar, mae'r LSB wedi cyhoeddi papur trafod ac mae Rheoleiddio'r SRA, CLC a CILEx wedi cychwyn cynllun peilot. Nododd yr LSCP dair math o wybodaeth allai fod yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr: 'data gwrthrychol' (ffigrau a thystiolaeth gan awdurdodau annibynnol); adborth annibynnol gan ddefnyddwyr; a gwybodaeth gefndir am waith a phrofiad darparwr. Y ffocws nawr yw nodi pa wybodaeth fyddai fwyaf defnyddiol i ddefnyddwyr, cyfrifo'r ffordd orau i gynhyrchu'r wybodaeth hon, ac yna agor y ffrydiau gorau ar gyfer darparu'r wybodaeth hon.

Bydd yn bwysig sicrhau bod y rheolau a grëir gan reolyddion yn cael eu dilyn gan ddarparwyr a'u gorfodi'n briodol ble nad yw hyn yn wir.

Hwyluso offer sy'n galluogi defnyddwyr i gymharu darparwyr yn hawdd

Yn gysylltiedig i'r materion uchod, mae offer cymharu digidol – megis mecanweithiau adborth a gwasanaethau cymharu prisiau – yn un o'r ffrydiau ar gyfer cael gwybodaeth i ddwylo defnyddwyr ar brisiau ac ansawdd gwahanol wasanaethau yn y farchnad. Roedd gobaith y byddai'r mesurau tryloywder a gyflwynwyd yn dilyn adolygiad y CMA yn 2016 yn helpu ysgogi offer o'r fath, ond awgryma'r dystiolaeth mai ychydig iawn o ddefnydd sydd arnynt gan ddefnyddwyr o hyd.

Er hynny, awgryma data arolwg fod mwy o ddefnyddwyr yn chwilio ar-lein am ddarparwyr. Mae yna dystiolaeth anecdotaidd hefyd fod offer cymharu cyfredol yn gweld cynnydd mewn traffig yn dilyn y pandemig a bod daearyddiaeth yn llai o ffactor wrth ddylanwadu ar y dewis o ddarparwr. Er bod yna rai nodweddion cynhenid i wasanaethau cyfreithiol sy'n ei gwneud yn anodd i'r offer hyn ffynnu yn y farchnad hon, mae'n bosibl y gallai newidiadau yn amodau'r farchnad, hwyluso gan reolyddion a gwell tryloywder gan ddarparwyr droi'r fantol.

Ac eto, ni ddylai gallu defnyddwyr i gael mynediad i wybodaeth am brisiau ac ansawdd fod yn ddibynnol ar lwyddiant chwaraewyr masnachol. Byddai'n well petai'r farchnad yn datblygu datrysiadau, ond yn absenoldeb hyn, efallai bod angen i reolyddion gefnogi defnyddwyr yn uniongyrchol.

Lleihau cymhlethdod – 'Cynnyrch Cyfreithiol Syml'?

Mae defnyddwyr yn dueddol o gyrraedd darparwyr yn llwyddiannus ar gyfer y materion mwyaf difrifol a wynebant, ond yn aml mae'r sector yn methu bodloni eu hanghenion cyfreithiol sylfaenol, gwerth isel.

Efallai bod potensial i ddatblygu cyfres o 'gynnyrch cyfreithiol syml' i wella gwaith ymgysylltu â defnyddwyr. Mae'r syniad yn defnyddio egwyddorion sydd wrth gefn 'cynnyrch ariannol syml' a ddatblygwyd gan yr Adolygiad Sargeant ddeng mlynedd yn ôl. Mae yna sawl elfen yn debyg rhwng gwasanaethau cyfreithiol ac ariannol o ran rhwystrau i ymgysylltu â defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg dealltwriaeth gan y cyhoedd o fanteision rheoli eu materion cyfreithiol a lefel addysg gyfreithiol isel ymysg y cyhoedd, diffyg tryloywder ac anhawster wrth gymharu cynigion, ac amrywiaeth a chymhlethdod y gwasanaethau sydd ar gael. Byddai symleiddio pethau yn helpu hybu ymddiriedaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd, gan annog pobl i siopa o gwmpas ac ysgogi mwy o gystadlu yn y farchnad.

Hanfod y syniad yw datblygu amrywiaeth fechan o gynnyrch safonol hawdd i'w deall a hawdd eu cymharu a fyddai'n bodloni anghenion sylfaenol pobl. Byddai'r rhain "yn gwneud beth mae'n ddweud ar y tun". Pwynt cychwyn fyddai i ddiffinio nodweddion pob cynnyrch (fel ysgariad syml neu ddiwrthwynebiad). Byddai darparwyr yn gallu marchnata'r gwasanaethau hyn gyda bathodyn 'cynnyrch cyfreithiol syml'. Yn gyfnewid, byddai gofyn iddynt ymroi i amodau penodol, fel cynnig ffioedd sefydlog a rhestru'r gwasanaethau hyn ar offer cymharu digidol.

Ni fyddai'r cynnyrch yma'n ateb y galw i bawb, ond gallent fodloni anghenion nifer o ddefnyddwyr nad oes gwasanaeth ar eu cyfer yn y farchnad. Yn rhan o'r ymgynghoriad ar ein strategaeth, hoffem glywed barnau ar rinweddau'r syniad hwn. Os yw'n ddeniadol o ran egwyddor, byddem yn disgwyl i'r llywodraeth arwain y blaen o ran sefydlu dichonolrwydd dull o'r fath.

Sut fydd LSB yn cyfrannu i'r flaenoriaeth hon yn 2021-24

Mynd ar drywydd argymhellion adolygiad cynnydd y CMA

Datblygu datganiad polisi statudol ar ymgysylltu â defnyddwyr

Nodi datrysiad(au) penodol ar ddangosyddion ansawdd

Defnyddio ein rôl ymgynnull i archwilio manteision 'cynnyrch cyfreithiol syml'

Her 8

Meithrin arloesi sy'n dylunio gwasanaethau o amgylch anghenion defnyddwyr

Blaenoriaethau ar gyfer y sector yn 2021-24

Dylai effeithiau amharus y pandemig, defnydd cynyddol o dechnoleg a marchnad fwy cystadleuol greu hinsawdd fwy ffrwythlon ar gyfer arloesi mewn gwasanaethau cyfreithiol. Yn aml fe welir rheolyddion fel y rhai sy'n llesteirio arloesi, ond gallant hefyd helpu ei ddatgloi.

Yn draddodiadol, mae rheolyddion wedi cefnogi arloesi trwy gael gwared ar reolau diangen a hyrwyddo cystadleuaeth. Yn fwy diweddar, mae rheolyddion ar draws yr economi yn cefnogi arloesi trwy fentrau rhagweithiol fel blychau tywod. Mae rheolyddion yn ffocysu ar greu amodau sy'n galluogi arloesi i ffynnu. nid ydynt yn cynllunio datrysiadau nac yn dewis enillwyr. Ac eto, yn gynyddol, mae'r rheolyddion yn ymrafael â rôl ble maent yn meithrin arloesi yn rhagweithiol.

Parhau i adolygu rheoleiddio fel nad yw'n llesteirio arloesi

Ffocws allweddol yn ystod y ddegawd ddiwethaf o reoleiddio gwasanaethau cyfreithiol fu i ganiatáu amrywiaeth ehangach o strwythurau busnes ac annog buddsoddiad allanol. Mae gweithwyr cyfreithiol proffesiynol wedi eu rhyddhau i weithredu mewn amrywiaeth ehangach o feysydd cyfreithiol ac i weithio mewn ffyrdd gwahanol, tra bod rheolau wedi eu diddymu oedd yn ychwanegu costau ac yn creu perygl o lesteirio arloesi. Mae hyn wedi llwyddo i'r fath raddau ag y mae data'r arolwg yn awgrymu fod darparwyr yn ystyried rheoleiddio i fod yn llai o rwystr i arloesi a bod amgylchedd mwy cystadleuol nag o'r blaen.

Er hynny, roedd pedwar o bob deg cwmni cyfreithiol yn dal i nodi ffactorau deddfwriaethol a rheoleiddio fel cyfyngiadau ar arloesi. Nodwyd newidiadau mewn deddfwriaeth yn effeithio ar y gwasanaethau maent yn eu darparu, gofynion cyfrinachedd a diogelu data cleientiaid, gofynion yswiriant indemniad proffesiynol, atal gwyngalchu arian a chadw trywydd gyda newidiadau mewn rheoleiddio fel materion. Gallai rheoliadau gyflwyno cyfyngiadau cymesur ar arloesi i ddiogelu cwsmeriaid. Mae rhai o'r ffactorau a nodwyd y tu hwnt i reolaeth rheolyddion gwasanaethau cyfreithiol, er fel gyda meysydd eraill polisi cyhoeddus, gallant ychwanegu eu llais i'r drafodaeth.

Gan gydnabod yr angen i osgoi newidiadau cyson sy'n gallu atal mynediad ac arloesi, mae'n ddyletswydd ar reolyddion i adolygu eu trefniadau yn rheolaidd. Enghraifft o hyn yw yswiriant indemniad proffesiynol (PII) fel maes ffocws blaenoriaeth. Mae PII yn elfen bwysig o gynnal hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau cyfreithiol, ond fel arfer dyma'r gost unigol fwyaf i reoleiddio ac mae premiymau yn codi'n sylweddol eleni. Mae mentrau i ddiwygio trefniadau rheoleiddio PII ar gyfer cyfreithwyr wedi bod yn ofidus, ond mae yna hefyd nifer o faterion mewn rhannau eraill o'r farchnad ble does yna ddim ond un neu nifer fechan o ddarparwyr PII.

Creu amgylchedd reoleiddio sy'n meithrin arloesi

Er gwaethaf ymdrechion i drechu rhwystrau i fynediad a lleihau rheoleiddio diangen, mae ein data arolwg yn dangos bod lefelau cyffredinol o arloesi yn y farchnad wedi parhau i fod yn sefydlog. Er yr angen i gadw rheoleiddio dan adolygiad, ceir tystiolaeth bod y prif rwystrau rheoleiddio sy'n bodoli yn dueddol o fod yn rhai 'meddal' fel llywio'r system reoleiddio.

Gallai rheolyddion y sector drechu'r rhwystrau hyn trwy fod yn rhagweithiol a thrwy gefnogi newydd-ddyfodiaid gyda gwybodaeth, blychau tywod, cronfeydd arloesi, strategaethau a mentrau tebyg. Mae'r SRA a Her Mynediad Cyfreithiol Nesta yn enghraifft o sut gall rheolyddion fod yn rhagweithiol a hwyluso arloesi sy'n darparu buddion mynediad at gyfiawnder yn rhagweithiol. Felly hefyd, mae'r peilot Blwch Tywod Lawtech a weinyddir gan Tech Nation yn galluogi arloeswyr i ymgysylltu mewn modd cydlynol gyda rheolyddion lluosog mewn un fforwm unigol: yr Uned Ymateb Rheoleiddiol.

Yn ogystal â bod yn fodd i reolyddion feithrin arloesi, gall blychau tywod helpu rheolyddion ac arloeswyr i ddeall y risgiau y gallai cynnyrch neu wasanaeth ei gynnwys. Gall hyn 'ddileu risg' gyda'r cynnyrch neu wasanaeth, lleihau ansicrwydd rheoleiddiol, a diogelu defnyddwyr. Gall blychau tywod rheoleiddiol helpu creu amgylchedd 'prawf' diogel sydd angen ar gyfer technolegau newydd. Fodd bynnag, er mwyn cynnal hyder y cyhoedd, dylai blychau tywod gadw at egwyddorion penodol.

Sut fydd LSB yn cyfrannu i'r flaenoriaeth hon yn 2021-24

- Cynnwys rôl y cyrff rheoleiddio wrth feithrin arloesi yn ein fframwaith perfformiad rheoleiddio
- Orlhain lefelau arloesi a defnyddio technoleg trwy ein rhaglen ymchwil
- Mynegi cyfres o egwyddorion arferion da ar gyfer blychau tywod rheoleiddiol
- Ystyried arloesi i fod yn rhan o'n gwaith ar gwmpas rheoleiddio
- Mae ein gwaith ar benderfyniadau rheoleiddio yn gwneud cyfraniad pwysig i ddiddymu rheoleiddio diangen tra'n cynnal amddiffyniad allweddol ar gyfer defnyddwyr

Her 9

Cefnogi defnydd cyfrifol o dechnoleg sy'n sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd

Blaenoriaethau ar gyfer y sector yn 2021-24

Mae technoleg yn rhan gynyddol o sut y darperir gwasanaethau cyfreithiol. Yr her yw sut y gellir, ac y dylid, defnyddio technoleg i gynyddu mynediad at wasanaethau cyfreithiol. Mae hyn yn cwmpasu materion yn ymwneud ag ymddiriedaeth, galluedd, capasiti a rheoleiddio. Yn ei hanfod, mae technoleg yn offeryn sy'n gallu ehangu mynediad at wasanaethau cyfreithiol. Ar gyfer y cyhoedd, mae'n eu galluogi i nodi a deall eu hanghenion cyfreithiol ac i ddatrys eu problemau mewn modd, ac amser, sy'n gweddu iddynt. Ar gyfer gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, gall eu cefnogi i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon.

Mae'r blaenoriaethau a sefydlir yn y strategaeth hon yn ffocysu ar rai o'r prif gonglfeini ble ceir dimensiwn rheoleiddio a fydd yn helpu technoleg i gyflawni ei botensial trawsnewidiol i ehangu mynediad. Mae'r rhain yn cynnwys: darpariaeth o fwy o ddata a gwell data yn ddeunydd crai i ategu arloesi; sicrhau y defnyddir technoleg mewn ffyrdd sy'n gymdeithasol dderbyniol; rôl y rheolyddion wrth feithrin arloesi wedi ei gydbwyso â darparu amddiffyniad digonol i ddefnyddwyr; sicrhau bod fframwaith rheoleiddio yn ateb y gofyn; a materion o ran allgáu digidol.

Datblygu mwy o ddata agored a data agored gwell

Mae data yn thema graidd i'r strategaeth hon. Mae data yn ysgogydd pwysig ar gyfer arloesi technolegol. Mae data yn helpu busnesau cyfreithiol i wella eu gwasanaethau. Mae rheolyddion yn defnyddio data'n gynyddol i hysbysu ymagweddau seiliedig ar risg. Mae offer cymharu digidol angen data i helpu defnyddwyr i gymharu pris ac ansawdd busnesau cyfreithiol. Mae data yn galluogi'r cyhoedd i wybod pa mor dda mae'r system cyfiawnder yn perfformio ac i ddal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol. Mae data hefyd yn sail i allu llunwyr polisi i werthuso pa ymyraethau sy'n gweithio'n dda neu'n llai da. Felly, mae data yn gonglfaen allweddol i nodi heriau ar draws y sector a phenodol, gan ddatblygu datrysiadau i'r heriau hynny a deall os yw datrysiadau yn gweithio er lles y cyhoedd.

Mae angen casglu mwy o ddata, a gwell data, a'i ddarparu i alluogi gwell arloesi. Mae offer fel Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn ddibynnol ar fynediad i swm mawr o ddata o ansawdd, fel dyfarniadau llysoedd, contractau a dogfennau cyfreithiol eraill. Fodd bynnag, efallai yr ystyrir yr wybodaeth hon i fod yn fasnachol gyfrinachol a gallai materion yn ymwneud â chyfrinachedd cleientiaid a braint broffesiynol gyfreithiol gyfyngu ar argaeledd mathau penodol o wybodaeth. Mynegwyd pryderon ynghylch gor-grynodiad o berchnogaeth o asedau data'r diwydiant: os yw hyn wedi ei grynodi yn nwylo ambell un, gallai gael effaith negyddol ar ddatblygiad cyffredinol AI cyfreithiol ac ar gystadlu rhwng datblygwyr.

Mae angen datrys y materion hyn fel bod data yn cael ei ddatgloi fel grym er lles. Gallai ymddiriedolaethau data a sefydliadau data i lywio a llywodraethu rhannu data gynyddu mynediad at ddata i uchafu ei werth cymdeithasol ac economaidd, tra'n cyfyngu a lliniaru niwed posibl.

Sicrhau bod defnydd o dechnoleg sy'n codi yn foesebol ac yn gymdeithasol dderbyniol

Mae gan arloesiadau technolegol newydd, yn cynnwys rhaglenni AI fel gwneud penderfyniadau algorithmig, cynnull dogfennau awtomataidd a botiau sgwrsio, yn ogystal â datblygiadau fel cadwyn bloc, y potensial i drawsnewid sut y darperir gwasanaethau cyfreithiol.

Mae rhai o'r technolegau hyn wedi heb sefydlu ac ennill ymddiriedaeth y cyhoedd, er enghraifft mae offer sy'n awtomeiddio'r broses o lunio ewyllys yn gynyddol boblogaidd gyda chwsmeriaid. Fodd bynnag, mae defnyddiau eraill o dechnoleg sy'n codi mewn gwasanaethau cyfreithiol yn fwy dadleuol. Mae rhai wedi dechrau defnyddio algorithmau i rannu asedau mewn ysgariad ac i ragweld pa achosion llys fydd yn ennill neu'n colli. Rhagwelwyd y byddai achosion sifil syml sy'n seiliedig ar ddogfennau llys, y bydd barnwyr yn cael eu hepgor a'u disodli gyda systemau deallusrwydd artiffisial.

Os bydd deallusrwydd artiffisial chwarae mwy o ran o ran darparu gwasanaethau cyfreithiol, yn arbennig ble mae hyn yn disodli ymwneud dynol, mae angen symud ymlaen â hyn mewn ffyrdd sydd wedi eu hymddiried ac sy'n 'gymdeithasol dderbyniol'.⁵ Mae'n bwysig deall ble mae'r 'llinellau terfyn' – ble mae defnyddio technoleg yn afresymol i gymdeithas.

⁵ Defnyddiwn y term "cymdeithasol dderbyniol" i olygu bod y defnydd arfaethedig o dechnoleg yn gyffredinol dderbyniol i weithwyr cyfreithiol proffesiynol a defnyddwyr, yn ogystal â bod yn gydnaws gyda buddiannau cymdeithasol cyffredinol. Rydym wedi mabwysiadu'r term hwn o ['The Regulation of New Technologies in Professional Service Sectors in the United Kingdom: Key Issues and Comparative Lessons'](#) gan yr Athro Roger Brownsword.

Mae hyn yn golygu ymgysylltu gyda'r cyhoedd a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol wrth gynllunio a gweithredu ymagweddau polisi. Heb ymddiriedaeth, nid yw defnyddwyr na gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn debygol o ymgysylltu gydag offer a allai fod yn fuddiol. Hefyd, mae gan y datblygiadau hyn oblygiadau ehangach o ran rheolaeth cyfraith a lles y cyhoedd.

Darparu rheoleiddio effeithiol ar gyfer gwasanaethau yn defnyddio technolegau sy'n codi

Bydd sut fydd rheolyddion yn ymateb i ddatblygiadau mewn technoleg yn ffactor bwysig wrth gyflawni ei potensial trawsnewidiol i ehangu mynediad. Fel gyda mathau eraill o arloesi, dylai rheolyddion gadw eu rheolau dan adolygiad a chymryd camau ymarfer i feithrin arloesi technolegol. Bydd hyn yn helpu agor mynediad i wasanaethau cyfreithiol – ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Gall rheolyddion ddarparu gwybodaeth, cyngor, trosolwg ac, yn y pen draw, hyder ddarparwyr technoleg a busnesau cyfreithiol i fynd ar drywydd arloesi sy'n bodloni gofynion rheoleiddiol. Mae hyn yn galw am ddull rhagweithiol gan reolyddion.

Er bod technolegau uwch fel AI yn dal yn gymharol anaeddfed, maent yn cynyddu. Mae angen i reolyddion gwasanaethau cyfreithiol feithrin eu galluoedd rheoleiddio technoleg eu hunain ac ystyried goblygiadau'r datblygiadau hyn nawr. Mae hyn yn cynnwys yr wybodaeth a sgiliau mae gweithwyr cyfreithiol proffesiynol angen, a pha safonau a rheoliadau, os o gwbl, sydd angen i ddelio â phryderon moesegol ac i ddarparu amddiffyniad digonol i ddefnyddwyr. Ble fo'n bosibl, mae ymagwedd gyfunol ar draws rheolyddion yn bwysig gan fod dulliau arwahanol yn creu perygl o greu gwahanol safonau ar gyfer technolegau sy'n cynnwys yr un gweithgareddau. Yn y pen draw, gallai hyn fod yn rhwystredig i arloeswyr a llesteirio arloesi.

Mae'r fframwaith rheoleiddio gyfredol a grëwyd gan y Ddeddf hefyd yn cyflwyno heriau. Yn amlwg, cynlluniwyd y ddeddfwriaeth cyn dyfodiad datblygiadau technoleg sy'n prysur newid gwedd gwasanaethau cyfreithiol. Yn bositif, mae ei natur oddefol yn fwy agored i arloesi technolegol nag mewn rhai awdurdodaethau. Fodd bynnag, mae cwmpas rheoleiddio yn creu problemau, er enghraifft golyga'r ffocws ar weithgareddau cyfreithiol neilltuedig a theitlau proffesiynol bod datblygwyr technoleg a chyflenwyr tu allan i Gymru a Lloegr wedi eu heithrio. Mae Covid-19 wedi cyflymu darparu gwasanaethau cyfreithiol ar-lein ymhellach, gan ei wneud yn fater mwy brys i ystyried yr ymatebion gorau, o fewn y fframwaith cyfredol a thrwy ddiwygio deddfwriaethol.

Lleihau allgáu digidol a chynnal dewisiadau amgen ar gyfer gwasanaethau allweddol

Mae gan dechnoleg potensial aruthrol i ddatgloi mynediad at gyfiawnder ond gall hefyd ei wanhau. Mae uchelgeisiau a mentrau'r Llywodraeth, fel y rhaglen i Ddiwygio HMCTS, wedi atgyfnerthu pwysigrwydd technoleg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Wrth i brosesau symud yn gynyddol i fod ar-lein, mae llunwyr polisi wedi gorfod ystyried risgiau allgáu digidol yn gynyddol, yn cynnwys trwy gynnal dewisiadau amgen ar gyfer gwasanaethau allweddol. Mae'r pandemig Covid-19 wedi golygu nad oedd llawer o ddewis ar wahân i ddarparu mwy o amrywiaeth o wasanaethau cyfiawnder yn defnyddio technoleg. Mae hyn wedi ysgogi cwestiynau polisi cyhoeddus ynghylch priodoldeb defnyddio technoleg mewn gwahanol sefyllfaoedd, er enghraifft defnyddio gwrandawriadau o bell mewn achosion teuluol ac ar gyfer treialon rheithgor. Unwaith y daw'r pandemig i ben, mae angen datrys cwestiynau ynghylch ble dylid defnyddio technoleg, a ble rydym angen dal i gynnig dewis o ran sut y ceir mynediad i wasanaethau.

Mae Covid-19 hefyd wedi cyflymu darpariaeth gwasanaethau cyfreithiol ar-lein. Mewn sawl achos, gallai hyn arwain at well gwasanaethau sy'n rhatach, yn fwy cyfleus ac yn haws i'w defnyddio. Fodd bynnag, gallai hefyd ddangos terfynau defnyddio technoleg i ymgysylltu gyda defnyddwyr, yn arbennig ble maent yn fregus neu os nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg eu hunain. Er nad yw'r rheolyddion yn wynebu'r un nifer o faterion â'r rhai mewn polisi cyhoeddus, mae problemau allgáu digidol – a'r gallu i ddefnyddio gwasanaeth digidol yn llwyddiannus – yn ddimensiwn o fregusrwydd allai arwain at ddeilliannau sy'n waeth ar gyfer rhai defnyddwyr nag eraill. Felly, dylai hyn hysbysu ymagwedd strategol tuag at fregusrwydd defnyddwyr gan y rheolyddion.

Sut fydd LSB yn cyfrannu i'r flaenoriaeth hon yn 2021-24

Cyflawni ymchwil ar dderbynioldeb cymdeithasol datblygiadau mewn technoleg gyda Phanel Cyhoeddus yr LSB

Cefnogi datblygiad safonau ac ymagweddau data agored ar draws rheolyddion, yn cynnwys ystyried asedau data'r sector

Ystyried sut gellir defnyddio ein fframwaith perfformiad rheoleiddiol i asesu galluedd a chapasiti cyrff rheoleiddio i ymateb i ddatblygiadau mewn technoleg

Yn rhan o'r gwaith ar gwmpas rheoleiddio, ystyried sut gallai ymagwedd seiliedig ar risg i reoleiddio alluogi arloesi a defnydd o dechnoleg

galluoedd rheoleiddio eu hunain er mwyn gallu darparu gwybodaeth, cyngor, trosolwg ac, yn y pen draw, hyder i ddatblygwyr technoleg a darparwyr gwasanaethau cyfreithiol i fynd ar drywydd arloesi ac i fodloni safonau rheoleiddio.

Ystyried sefydlu panel cyngori ar gyfer cyrff rheoleiddio i ymgynghori ar faterion technolegau ac arloesi

Defnyddio technoleg i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio a statudol